HAF 2023

RHIF 5

GOGLEDD POWYS Lles

NORTH POWYS Wellbeing

# DIWEDDARIAD

NEWYDDION GAN RAGLEN LLES GOGLEDD POWYS

## GWAITH CYNLLUNIO MANWL AR Y GWEILL AR GAMPWS Y DRENEWYDD

Mae cynlluniau ar gyfer creu campws iechyd a lles amlasiantaethol yng nghanol y Drenewydd wedi cymryd cam sylweddol ymlaen wrth benodi ymgynghoriaeth adeiladu i gefnogi'r prosiect pwysig hwn sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, drwy Raglen Lles Gogledd Powys.

Mae Mott MacDonald o Gymru, yn cynnal gwaith modelu manwl i'n cefnogi i gadarnhau'r cyfleusterau a fydd yn cael eu darparu ar gampws Stryd y Parc. Maent hefyd wedi'u comisiynu i arwain ar waith i sicrhau Partner Cadwyn Gyflenwi i gyflawni'r prosiect, ac maent yn ymgysylltu â Phenseiri Hughes o'r Drenewydd a greodd y lluniau cysyniad ar gyfer y campws yn flaenorol.

Bydd y cwmni'n gweithio'n agos gyda thîm dylunio Cyngor Sir Powys i sicrhau cydlyniad addas gydag elfen ysgol y Campws. Mae tîm y cyngor eisoes yn gweithio ar gynlluniau ar gyfer adeilad ysgol newydd ar safle'r campws (gweler yr erthygl ar dudalen 2).

Mae'r cynlluniau ar gyfer y campws iechyd a lles yn cynnwys adeilad ysbyty newydd ar gyfer y Drenewydd (gan gynnwys Canolfan Gofal Brys, gwelyau cleifion mewnol, uned eni dan arweiniad bydwragedd, gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio yn ogystal ag offer diagnostig gwell), cyfleusterau gofal cymdeithasol a lles (gweithio law yn llaw â'r sector gwirfoddol), Academi Iechyd a Gofal newydd - gan weithio'n agos gyda llyfrgell y dref - a thai â chymorth.

*(parhau ar dudalen 2)*

## Ein stori hyd yn hyn....

- **2017 - Strategaeth Iechyd a Gofal yn cael ei chyhoeddi gan Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.**
- **2018 - O ganlyniad i'r strategaeth hon, cafodd Rhaglen Lles Gogledd Powys ei sefydlu i drawsnewid iechyd a gofal yng ngogledd y sir.**
- **2019 - Ymgysylltu cymunedol eang a gynhaliwyd gan y tîm hwn a arweiniodd at ddatblygu Model Integredig o Ofal a Lles.**
- **2022 - Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein Hachos Busnes Rhaglen ar gyfer campws Iechyd a Lles newydd yn Y Drenewydd.**

*www.powyswellbeing.wales*

Powys

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Powys | One Powys Yn Un | Powys Health and Social Care Regional Partnership Board

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Nigel Brinn (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Sir Powys) yw Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) y prosiect (ynghyd â Cyfarwyddwr Cyswllt Cyfalaf, Ystadau ac Eiddo,Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Wayne Tannahill). Nododd: "Rwy'n falch iawn o nodi'r comisiwn pwysig hwn ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Mott MacDonald wrth iddynt helpu symud y prosiect o'r broses darlunio i'r cam adeiladu.

Ychwanegodd Alun Rhys Owen MRICS, Cyfarwyddwr Prosiect ac Arweinydd Rhanbarthol Rheoli Prosiectau a Chostau (Cymru a De-orllewin) ar gyfer Mott MacDonald: "Mae Mott MacDonald yn falch ac yn gyffrous i fod yn arwain datblygiad y campws ac yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys ar y prosiect braenaru hwn. Bydd yr integreiddio ar un safle rhwng cyfleusterau addysg, iechyd a gofal yn trawsnewid y datblygiad unigryw hwn yn gampws lles i'r gymuned gyfan".

Mae Rhaglen Lles Gogledd Powys yn bartneriaeth o'r bwrdd iechyd a'r cyngor, sy'n gweithio dan faner Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys. Cyflwynodd tîm y rhaglen ei Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn 2022 ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar y cam nesaf - yr Achos Busnes Amlinellol.

Mae gan Mott MacDonald brofiad o ystod eang o brosiectau cyfalaf cymhleth proffil uchel gan gynnwys y 'Temple Quarter' ym Mryste a rhaglen adfywio Cors St Philip, gan gynnwys gwaith ailwampio gorsaf Temple Meads ym Mryste. Bu Mott MacDonald hefyd yn rheoli datblygiad ysbytai dros dro ledled y DU yn ystod y pandemig i'r GIG; gan ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Genedlaethol Adeiladu Arbenigrwydd am 'Integreiddio a Gweithio ar y Cyd' ar gyfer Ysbyty Calon y Ddraig, a adeiladwyd yn Stadiwm Principality ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau a phrosiectau ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol Mott MacDonald ar gael yn www.mottmac.com

# Y CYNGOR O BOSIBL YN EHANGU CYNLLUN AR GYFER YSGOL NEWYDD AR Y SAFLE

Mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Calon y Dderwen yn Y Drenewydd.
Mae'r adeilad newydd yn cael ei ddylunio fel ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned i sicrhau y gall disgyblion elwa o amgylchedd dysgu a fydd yn eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu llawn botensial. Mae'n cael ei ddatblygu ger ein darpariaeth Iechyd a Lles arfaethedig, a fydd yn galluogi gwasanaethau iechyd a lles i gysylltu'n agos â'r ysgol.

Fodd bynnag, mae'r cyngor bellach yn ystyried ehangu maint yn adeilad fel y gall mwy o ddisgyblion fynychu ac elwa o'r cyfleusterau newydd hyn a fydd yn cefnogi darpariaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru. Gall y newid weld y cyngor yn datblygu ysgol sy'n cadw'r gymuned wrth wraidd er mwyn gwasanaethu cymuned ehangach. Bydd yr ysgol hon yn cynnwys disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion Maesyrhandir a Threowen, yn ogystal ag Ysgol Calon y Dderwen.

Dywedodd y Cynghorydd Pete Roberts, Aelod o'r Cabinet dros Bowys sy'n Dysgu: "Rydyn ni eisiau darparu amgylchedd dysgu lle mae disgyblion yn ffynnu ac yn cyflawni eu potensial llawn a lle gall staff addysgu mewn cyfleusterau sy'n cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

"Rwy'n awyddus i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion â phosibl yn elwa o'r cyfleusterau newydd gwych a fydd yn cael eu darparu yn adeilad newydd yr ysgol yn y Drenewydd. Fodd bynnag, rydym ar gam cynnar iawn wrth archwilio'r syniadau hyn. Er mwyn ein helpu i ddeall effaith unrhyw newidiadau i'r ysgolion hyn, rydym wedi dechrau trafodaethau gyda'r tair cymuned ysgol i ddeall meysydd sy'n peri pryder neu faterion lleol y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt.
"Byddwn yn cwrdd â staff a llywodraethwyr yn y tair ysgol wrth i ni archwilio'r cynllun hwn a byddwn yn rhoi cyfle i rieni a'r gymuned ehangach i leisio eu barn.

"Ein nod yw sicrhau y gall disgyblion yn y Drenewydd barhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel am flynyddoedd lawer i ddod a sicrhau y gall cymaint o ddisgyblion â phosibl elwa o'r buddsoddiad ariannol sylweddol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dref. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r tair cymuned ysgol i nodi ffordd ymlaen a fydd yn cyflawni hyn."
Disgwylir y bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn mynd o flaen Cabinet y cyngor ddechrau'r hydref i gytuno ar ffordd ymlaen.

# GWEINIDOG YN AGOR YSBYTY AR EI NEWYDD WEDD



Mae Rhaglen Lles Gogledd Powys yn rhan o uchelgais ehangach i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal, fel y nodir yn Strategaeth Iechyd a Gofal y sir. Mae rhan allweddol o'r uchelgais hwnnw wedi'i chwblhau'n ddiweddar gydag ailddatblygu'r ysbyty ym Machynlleth.

Dyfarnwyd £15m i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys gan Lywodraeth Cymru i ailddatblygu Ysbyty Bro Ddyfi, gan ganiatáu i'r adeilad newydd ddod â gwasanaethau iechyd cymunedol lleol, y feddygfa leol a'r cyfleusterau ysbyty presennol o dan yr un to. Agorodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan AS, y cyfleusterau yn swyddogol mewn seremoni ddiwedd mis Mai.

Symudodd Meddygfa Iechyd Bro Ddyfi i'w gartref newydd yn Ysbyty Bro Ddyfi ddiwedd mis Ebrill, ac yn ystod yr wythnosau ar ôl daeth deintyddiaeth gymunedol, podiatreg, iechyd meddwl oedolion a bydwreigiaeth i ymuno â nhw.

Mae ffocws ar y celfyddydau a mannau awyr agored wedi arwain at ddatblygu gardd therapi a wnaeth y bwrdd iechyd comisiynu gwaith celf gan yr artistiaid Erin Hughes, Di Ford, Gemma Rose Green-Hope a Jim Bond, sy'n rhan o'r adeilad a'r tu allan yn y gerddi cymunedol. Mae disgwyl i gaffi cymunedol - Caffi Croeso - fydd yn darparu man aros cyfforddus i ddefnyddwyr yr ysbyty, agor yn ystod yr wythnosau nesaf.

Wrth agor y cyfleuster newydd, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan: "Roedd hi'n bleser agor ailddatblygiad Ysbyty Cymunedol Machynlleth Bro Ddyfi yn swyddogol a gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth y bydd yn ei wneud i'r gymuned leol.

"Mae hon yn enghraifft wych o sut mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ail-lunio'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a lles cymunedol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau gwell mynediad i feddygon, nyrsys, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn nes at adref."

Dywedodd Carl Cooper, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: "Mae gan yr adeilad hwn hanes adnabyddus o wasanaethu pobl Machynlleth a Bro Ddyfi sy'n ymestyn dros 150 o flynyddoedd. Nawr, diolch i'r buddsoddiad hwn gan Lywodraeth Cymru, mae'n parhau i gefnogi'r gymuned leol i'r dyfodol."

Mae partneriaeth rhwng asiantaethau a chyda'r gymuned wrth wraidd y datblygiad, ochr yn ochr â gwella amgylchedd gwasanaethau iechyd, mae ardaloedd ar gael i'w defnyddio gan sefydliadau gwirfoddol a phobl yn gyffredinol. Mae'n enghraifft berffaith o sut y gall adeilad alluogi gweithio'n integredig."




*Lluniau: (uchod) Y Gweinidog Eluned Morgan AS, yn y llun uchod (eistedd) gyda staff yn y cyfleusterau deintyddol cymunedol newydd yn Ysbyty Bro Ddyfi.*

*(Chwith) Torri'r rhuban i agor yr ysbyty yn swyddogol.*



## YMDDIRIEDOLAETH GYFAGOS YN CHWILIO AM FEWNBWN

Rydym wedi bod mewn cysylltiad agos â'n cydweithwyr yn y GIG yn Sir Amwythig wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn Amwythig a Telford - lle mae llawer o gleifion Powys yn derbyn gofal.

Wrth iddynt ddatblygu eu Rhaglen Trawsnewid Ysbytai, maent yn chwilio am fewnbwn gan bobl yn y maes hwn trwy grwpiau ffocws ar-lein. Os hoffech gymryd rhan, gallwch gysylltu â'r tîm yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford yn sath.engagement@nhs.net.



## #GIG75

Rydyn ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r GIG wrth iddo ddathlu ei Ben-blwydd yn 75 oed haf yma.

Cymerodd rhai o aelodau ein tîm ran yn parkrun yn y Drenewydd (dde) i ddathlu'r pen-blwydd hwn.



## Byddai'n well gennych dderbyn hwn dros e-bost?

Rydym yn cyflwyno fersiwn e-bost newydd o'n Cylchlythyr o hyn ymlaen. Felly, os byddai'n well gennych dderbyn e-fersiwn o'r Diweddariad gallwch gofrestru gan ddefnyddio'r cod QR ar y chwith.

Os hoffech sgwrsio â'r tîm, cysylltwch â ni ar powyswellbeing.north@wales.nhs.uk neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Instagram neu Twitter (gallwch ddod o hyd i ni yn @powyswellbeing ar y tri llwyfan cyfryngau cymdeithasol.)

Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn Rhaglen Lles Gogledd Powys, Ystafell 1.13 Tŷ Ladywell , Stryd y Parc, Y Drenewydd, Powys, SY16 1JB

www.powyswellbeing.wales/?lang=cy